# DEFNYDDIO ADDYSG I FOLI JEHOFAH

*Nodyn i'r siaradwr:*
Byddwch yn rhesymol a chynnes wrth gyflwyno'r deunydd hwn. Gwnewch yn amlwg i'r gynulleidfa mai gwir bwrpas bywyd ydi dod i 'nabod Jehofah a'i was'naethu'n ffyddlon. Fe ddylai addysg addurno'n gallu ac amlhau'n cyfleon ni i foli Jehofah. Mi all addysg ei gwneud yn bosib' inni ofalu'n fwy effeithlon am ein cyfrifoldebau Cristnogol

**ADDYSG—RHAN HANFODOL O FYWYD Y CRISTION** (5 mun.)

Mae Tystion Jehofah yn rhoi gwerth mawr ar addysg—fel dylai gwir Gristnogion

Mae addysg yn ein dysgu sut i drin eraill (Math 7:12)

Mae addysg yn ein darparu ni i ofalu am ein cyfrifoldebau materol ac ysbrydol (1Tim 5:8; *g*98 3/8 19-21)

Drwy gyfrwng addysg y down i wybod am Dduw a'i fwriadau

Fe ddylai addysg ein helpu ni i ufuddhau i Jehofah a'i foli (Preg 12:13; *g*99 7/22 13)

**PRYD DDYLAI ADDYSG GYCHWYN? AC YMHLE?** (6 mun.)

"Cyfrwng i ennill gwybodaeth, i ddysgu sgiliau, i fagu arferion, gwerthoedd ac agweddau" ydi addysg (*The World Book Encyclopedia; it*-1 682)

Man cychwyn y broses ddysgu ydi'r cartre'—rhieni yn dysgu'r plant o fabandod (2Tim 3:14, 15; *w*99 2/1 32; *g*98 1/22 8; *w*96 2/1 12)

Mae plant ifanc iawn yn medru codi arferion da, agweddau, gwerthoedd a sgiliau

Mae rhai yn dysgu darllen cyn mynychu'r ysgol (*w*96 7/15 31; *w*88 8/1 13)

Helpwch y rhai ifanc i feithrin perthynas dda gyda Duw (*w*96 12/1 15-16)

Dysgwch eich plant i fod yn gwrtais, i barchu eraill, ac i ymddwyn yn foesol dda

Gwaith mawr rhieni ydi dysgu eu plant (Gweler "Questions for Parental Self-Examination" *g*88 9/8 12)

'Dyw'r ffaith fod y gynulleidfa'n darparu addysg Gristnogol ddim yn golygu nad oes gan rieni gyfrifoldeb yn hyn (Eff 6:4)

**AMCANION SYLFAENOL ADDYSG GYTBWYS** (15 mun.)

Defnydd mwya' dyrchafedig addysg ydi moli Jehofah

Yn hyn o beth Iesu osododd yr esiampl (Ioan 7:16-18)

Fe ddylai pobl ifanc ymroi yn ddiwyd i waith ysgol. Bydd hyn yn dangos eu bod yn dilyn egwyddorion Ysgrythurol, ac yn anrhydeddu Jehofah (Salm 119:9-12; Col 3:23; *w*96 2/1 11-14)

Dysgwch ddarllen yn dda

Dysgwch sut i ysgrifennu'n eglur

Datblygwch yn feddyliol, yn foesol ac yn ysbrydol

Mynnwch dderbyn eich hyfforddi mewn sgiliau ymarferol ar gyfer byw bob dydd

Cyfrifoldeb y rhieni ydi penderfynu am ba mor hir mae angen i'w plant gael addysg seciwlar (*w*97 8/15 21)

I'r Cristion sy'n meddwl am barhau ei addysg peth da fyddai ystyried manteision ac anfanteision hynny (*g*98 3/8 20)

Nid clod neu gyfoeth ddylai fod yn cymell

Yr amcan ydi medru'n cynnal ein hunain er mwyn gwas'naethu Jehofah yn llawn yn y weinidogaeth Gristnogol (*w*99 9/1 16-17; *w*96 12/1 17-19)

**FFORDD JEHOFAH O ADDYSGU EI BOBL** (15 mun.)

Jehofah ydi'r Addysgwr mwyaf

Mae Duw yn defnyddio'i Air a'i gyfundrefn weladwy i ddarparu addysg hanfodol heddiw (Job 36:22; Eseia 54:13; *w*00 5/1 14-16)

Yn wahanol i ddoethineb y byd, mae addysg Jehofah er lles y rhai sy'n ei dilyn hi (Eseia 48:17; *w*00 6/1 29-31)

Mae addysg ddwyfol yn cynnwys dysgu meddwl, rhesymu, llefaru, ufuddhau, cydweithredu ag eraill, a rhoi cariad ar waith (Diar 2:10, 11)

Wrth ddarllen y Beibl yn gyson mae'n meddwl a'n calon yn cael eu cyfeirio i ystyried pethau pwysica' bywyd, ac adeiladu ffydd (Salm 1:1-3; 2Tim 3:16, 17)

Mae astudio cyhoeddiadau'r Gymdeithas, megis *The Watchtower* a'r *Awake!,* yn rhoi deall ysbrydol, yn ehangu gorwelion, ac yn ychwanegu at ein geirfa (*w*00 2/15 32; *g*00 5/8 32)

Dyna sut 'rydym wedi dod i wybod am Jehofah, Iesu Grist, y pridwerth, Teyrnas Dduw, y byd newydd, y gobaith sydd i'r meirw, ymddygiad duwiol, ac felly 'mlaen

Mae pob un o gyfarfodydd y gynulleidfa yn cynnig cyfle inni feithrin ein doniau llefaru a dysgu (Math 28:19, 20; *w*99 8/1 7)

Mae'r weinidogaeth yn addysg ynddi'i hun

Wrth helpu gyda chynnal a chadw Neuaddau'r Deyrnas, helpu gyda chynlluniau adeiladu theocrataidd, a helpu yn y cynulliadau, down i ddysgu sut i gynllunio ac i gydweithio ag eraill

Mae cyfundrefn Jehofah yn ein dysgu ni i ufuddhau i Dduw, i Grist, i'r gynulleidfa, i rieni, i'r "awdurdodau sy'n ben" (Rhuf 13:1; Actau 5:29; Eff 6:1; Phil 2:10; Heb 13:17)

Addysg ddwyfol yn unig sy'n arwain at y bywyd sy'n fywyd yn wir (1Tim 6:17-19)

**DEFNYDDIWCH ADDYSG I ANRHYDEDDU'R ADDYSGWR GORUCHAF** (4 mun.)

Ni fydd diwedd ar yr hyn medrwn ei ddysgu gan ein Haddysgwr Mawr (Eseia 30:20)

Mae 'na lawer o wybodaeth newydd i ddod o'r sgroliau ["llyfrau"] (Dat 20:12; *re* 298-300)

Bydd enwau'r rhai fydd wedi elwa o addysg Jehofah yn "llyfr y bywyd"

Mae Jehofah heddiw yn ein haddysgu ni i sylweddoli fod 'na destun dadl bydysawdol yn wynebu'r ddynoliaeth

Mae Gair Duw a'i gyfundrefn yn ein galluogi ni i werthuso materion mewn perthynas â'n haddoliad a'n hamcanion personol

Diolchwn i Dduw am help i gadw'n llygad yn syml a cheisio'r Deyrnas yn gyntaf (Math 6:22, 33, 34)

Fel gwnaeth Iesu'r Athro Mawr, gadewch i ni ddefnyddio addysg a'r cyfan o'n hadnoddau i foli Jehofah (Eseia 2:3, 4)

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)